



Site Stakeholder Group

## **GORSAF BŴER WYLFA**

### **Y GRŴP RHANDEILIAID SAFLE**

#### **CYLCH GORCHWYL - Mai 2013.**

#### **Pwrpas Grŵp Rhanddeiliaid y Safle**

Pwrpas cyffredinol Grŵp Rhanddeiliaid y Safle yw gweithredu fel y brif ddolen gyswllt rhwng y gymuned, gweithredwyr y safle a'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear (NDA). Yn rhinwedd y rôl hon mae'n bodoli er mwyn:

- Darparu sianel gyfathrebu weithredol, ddwyffordd rhwng gweithredwyr y safle, yr NDA a rhanddeiliaid lleol.
- Rhoi cyfle i ofyn cwestiynau i'r gweithredwyr, yr NDA a'r rheoleiddwyr.
- Rhoi cyfle i rhanddeiliaid wneud sylwadau ynglŷn â strategaethau a chynlluniau a dylanwadu arnynt.
- Mynegi safbwyntiau lleol a chynnig cyngor amserol i'r NDA.
- Gwneud sylwadau ynglŷn â pherfformiad yr NDA a'i gontractwr o safbwynt cyflawni cynlluniau, gwerth am arian, ac ati.
- Comisiynu a derbyn adroddiadau am weithgareddau ar y safle a'u heffaith ar ddiogelwch, yr amgylchedd ac iechyd, er enghraifft.
- Adolygu trefniadau ar gyfer materion megis ymateb brys.
- Archwilio a chyfrannu tuag at y gwaith o flaenoriaethu rhaglenni gwaith.
- Rhoi barn a sylwadau i'r NDA ynglŷn â dyfodol y safle.
- Rhoi barn ynglŷn â chontract yr NDA gyda'r gweithredwyr a pherfformiad y gweithredwyr.
- Sefydlu is-grwpiau er mwyn rhoi sylw i faterion penodol sy'n berthnasol i'r rhaglen lanhau.
- Sefydlu ymgynghoriad lleol ehangach drwy gyfarfodydd cyhoeddus a dulliau eraill yn ôl y galw.

Cofiwch: Mae'n bwysig sylweddoli nad yw unrhyw rai o'r trefniadau hyn yn diddymu'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ac y bydd yr NDA neu'r sawl sy'n dal trwydded y safle yn dal i fod yn gyfrifol am y penderfyniadau a wneir.

## **Aelodaeth**

Dylai aelodaeth y Grŵp adlewyrchu strwythur cynrychioliadol y gymuned leol a'i buddiannau, yn ogystal â statws gweithredol y safle ac anghenion yr NDA. Bydd aelodau a benodir yn gynrychiolwyr etholedig eu hetholaeth yn aelodau â phleidlais. Bydd aelodau a benodir yn rhinwedd eu gwybodaeth neu eu proffesiwn yn aelodau heb bleidlais. Ar sail hyn, dylai aelodaeth y Grŵp gynnwys:

Aelodau sydd â Phleidlais:

- Dau gynrychiolydd etholedig o bob un o'r Cynghorau Cymuned cyfagos, sef Llanbadrig, Mechell, a Chylch y Garn.
- Dau cynrychiolydd etholedig o Gyngor Tref Amlwch.
- Tri cynrychiolydd etholedig o bob un o wardiau cyfagos Cyngor Sir Ynys Môn – Talybolion a Twrcelyn
- Un aelod etholedig o Gyngor Sir Ynys Môn a enwebir gan y Cyngor.
- Dau gynrychiolydd etholedig o ochr staff Cydgyngor Safle Gorsaf Bŵer Wylfa.
- Y Cadeirydd.

Aelodau heb bleidlais:

- Rheolwr y Safle
- Cynrychiolydd Safle'r NDA
- Y cyfryw swyddogion a benodir gan Gontractwr Rheoli a Gweithrediadau'r Safle er mwyn darparu gwybodaeth i'r Grŵp am faterion yn ymwneud â'r safle.
- Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn neu ei enwebai.
- Cynrychiolydd o Bartneriaeth Adfywio Economaidd Ynys Môn
- Cynrychiolydd o Cyfoeth Naturiol Cymru ( Yn flaenorol - Gyngor Cefn Gwlad Cymru).
- Cynrychiolydd o Gymdeithas Ymddeoledigion yr Wylfa
- Aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Syr Thomas Jones
- Aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Cemaes.
- Cynrychiolydd o Ddŵr Cymru.
- Cynrychiolydd lleol Awdurdod yr Heddlu
- Cynrychiolydd lleol Merched y Wawr
- Cynrychiolydd lleol Sefydliad y Merched
- Cynrychiolydd lleol Cymdeithas Tîr Gwlad a Busnes (Cymdeithas Tîr Gwlad gynt)
- Cynrychiolwyr lleol Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ac Undeb Amaethwyr Cymru
- Cynrychiolydd o Gwmni Cemaes Cyf

Dylai'r aelodau gael eu penodi am y cyfnod y maent yn dal y swydd berthnasol a pharhau i fod yn gyfrifol am gyfathrebu dwy-ffordd gyda'u hetholaethau neu eu sefydliadau perthnasol. Dylid rhoi'r hawl i bleidleisio i gynrychiolwyr sydd wedi eu hethol yn ddemocrataidd i gynrychioli'r gymuned neu'r sefydliadau cymunedol yn unig, yn hytrach nag aelodau eraill sy'n cynrychioli cyrff swyddogol.

Yn ogystal, bydd gan yr unigolion canlynol neu un cynrychiolydd o'r cyrff isod hawl i fynyachu unrhyw gyfarfod o'r Grŵp fel sylwedyddion ac i gyflwyno adroddiadau fel y bo'n briodol:

- Aelod Seneddol Ynys Môn
- Aelod Cynulliad Ynys Môn
- Yr Aelod Lleol o Senedd Ewrop
- Yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Y Swyddfa Diogelwch Sifil a Niwclear (OCNS)
- Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru
- Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru/Awdurdod Datblygu Cymru/Bwrdd Croeso Cymru
- Pysgodfeydd Môr Gogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol y Merched
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
- Cynrychiolwyr Lleol Greenpeace / Cyfeillion y Ddaear
- Gorsaf Bŵer Maentwrog
- Gweithredwyr Rheilffyrdd
- Myfyrwyr o ysgolion a cholegau lleol
- Cynrychiolydd o PAWB

### **Y Cadeirydd**

Dylai Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid fod:

- Yn annibynnol ar weithredwyr y safle a'r NDA
- Aelod lleol o'r gymuned sy'n uchel ei barch, wedi'i ethol gan aelodau sy'n pleidleisio ac sy'n cael ei ailbenodi bob 2 flynedd.
- Wedi'i gefnogi gan Ddirprwy Gadeirydd sydd wedi ei ethol yn ffurfiol
- Yn gyfrifol am:
  - Weithredu cylch gorchwyl y Grŵp yn ei gyfanrwydd
  - Sicrhau bod sylw'n cael ei roi i anghenion rhanddeiliaid drwy'r agenda a'r modd y cynhelir y cyfarfod
  - Sicrhau bod cydbwysedd rhwng safbwyntiau yn y Grŵp a'i is-bwyllgorau
  - Datblygu gallu'r aelodau drwy hyfforddiant, ymweliadau safle a chefnogaeth
  - Ar y cyd ag enwebedigion eraill, cynrychioli'r Grŵp ar lefel Genedlaethol
  - Rheoli unrhyw gyllid penodol a ddarperir gan yr NDA

Wrth ystyried dewis Cadeirydd annibynnol, gallai'r Grŵp ystyried cysylltu â'r canlynol:

- Swyddogion penodedig o Awdurdodau Lleol
- Pobl academiaidd, ynadon, pobl fusnes wedi ymddeol, ac ati
- Aelodau o'r gymuned leol

### **Ysgrifenyddiaeth**

Bydd contractwr y safle'n darparu cefnogaeth ysgrifenyddol wedi ei chyllido gan yr NDA fel rhan o'r gyllideb ar gyfer y safle.

Byddai cefnogaeth ysgrifenyddol fel arfer yn cynnwys:

- Bod yn gyfrifol am y gwaith gweinyddol cysylltiedig â dyddiadau, lleoliadau a lluniaeth cyfarfodydd
- Ad-dalu mân dreuliau a chostau a gytunwyd i aelodau ar fusnes y Grŵp.
- Trefnu tocynnau teithio a llety ar gyfer aelodau ar fusnes y Grŵp.
- Gweinyddu unrhyw dâl a gytunwyd mewn perthynas â'r Cadeirydd a/neu'r Is-gadeirydd.

- Drafftio a dosbarthu a chyhoeddi cofnodion cyfarfodydd y Grŵp yn brydlon i aelodau a phartïon eraill sydd â budd, gan gynnwys Crynodeb Gweithredol o bwyntiau bwled allweddol y gall aelodau eu hanfon ymlaen at eu hetholwyr.
- Rheoli a diweddarau gwefan y Grŵp.
- Dosbarthu papurau i aelodau yn ôl y galw, gan gynnwys gohebiaeth gan gyrrff allanol
- Trefnu cyrsiau cynefino ar gyfer aelodau newydd o'r Grŵp.
- Trefnu ymweliadau safle ar gyfer aelodau'r Grŵp pan fo hynny'n ddefnyddiol.
- Trefnu cyllideb ar gyfer yr holl gostau sydd ynghlwm yn yr uchod, gweinyddu'r gyllideb honno a thalu'r costau perthnasol.
- Llunio a chyhoeddi Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid y Safle bob blwyddyn, mewn cysylltiad â'r Grŵp, er mwyn sicrhau bod cynlluniau ymgysylltu lleol yn glir ac yn amlwg.
- Cysylltu â safleoedd cyfagos (lle bo hynny'n berthnasol) er mwyn sicrhau bod materion perthnasol yn cael eu trin a'u trafod yn briodol ar agendâu'r Grŵp.

### **Lleoliad ac Amllder y Cyfarfodydd**

Dylai'r cyfarfodydd gael eu hysbysebu a rhaid iddynt gael eu cynnal mewn lleoliadau sy'n gyfleus i aelodau o'r cyhoedd a'r wasg. Dylai'r amser fod yn gyfleus i randdeiliaid er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad ydynt yn cael eu rhwystro na'u hatal rhag bod yn bresennol. Pan fo'n bosibl, dylid cynnal y cyfarfod yn ddwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg, gyda chyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael.

Mae'n ofynnol i'r Grŵp gynnal dau gyfarfod y flwyddyn o leiaf, ac wrth benderfynu pa mor aml y bydd yn cyfarfod, dylai ystyried anghenion lleol a'r rhaglen waith ar y safle.

### **Ymdrin â Busnes**

Dylid pennu'r agenda ar gyfer cyfarfodydd mewn modd sy'n sicrhau bod sylw digonol yn cael ei roi i bob mater sy'n rhan o'r cylch gorchwyl yng ngoleuni anghenion y safle a'r gymuned leol. Yn ogystal ag adolygu perfformiad blaenorol, dylai'r cyfarfodydd hefyd edrych tua'r dyfodol er mwyn sicrhau bod anghenion rhanddeiliaid yn cael eu hystyried wrth gynllunio ymlaen, ar lefel y safle ac ar lefel yr NDA.

Dylid cyfyngu pleidleisio i faterion fel newidiadau i'r cyfansoddiad, ethol y Cadeirydd a mabwysiadu egwyddorion sy'n deillio o'r is-grwpiau a sefydlwyd gan Grŵp Rhanddeiliaid y Safle. Dylai materion sy'n galw am benderfyniad ffurfiol gael eu rhoi i bleidlais ar sail mwyafrif syml. Os nad oes modd cael cytundeb, dylai'r Cadeirydd gael pleidlais fwrw.

Ar adeg (neu adegau) priodol yn ystod y cyfarfod, dylai aelodau o'r cyhoedd gael cyfle i ofyn cwestiynau sy'n berthnasol i unrhyw adroddiadau a busnes y cyfarfod.

Er mwyn ychwanegu at y trefniadau adrodd a monitro arferol, dylai'r Grŵp ystyried sefydlu is-grwpiau (parhaol a thros dro) neu gynnal cyfarfodydd arbennig i edrych yn fanylach ar faterion penodol. Gellid gofyn i is-grwpiau ganolbwyntio ar feysydd penodol neu gyflawni gwaith ar ran y prif bwyllgor. Dylai'r Grŵp hefyd ystyried cynnal gweithdai a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau dealltwriaeth eang a chynnwys barn ehangach ar faterion o bwys. Efallai hefyd y byddai'n briodol cyfethol aelodau dros dro er mwyn sicrhau gwybodaeth arbenigol a fyddai'n helpu'r Grŵp neu ei is-grwpiau i gwblhau gwaith yn fwy effeithlon.

### **Y Wasg**

Dylai'r wasg allu bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Grŵp, gyda'r hawl i ofyn cwestiynau ar ddiwedd y cyfarfod o leiaf. Mae hyn ar ddisgresiwn y cadeirydd.

## **Meithrin Gallu**

Er mwyn sicrhau bod y Grŵp yn gweithredu'n effeithiol, dylai aelodau newydd fynd drwy broses gynefino a ddylai gynnwys pecyn gwybodaeth ac ymweliad safle o leiaf. Dylai'r pecyn gynnwys siarter rhanddeiliaid yr NDA a'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ogystal â Chanllawiau'r NDA ar gyfer Grwpiau Rhanddeiliaid Safle a chylch gorchwyl y Grŵp hwnnw. Yn ystod eu cyfnod yn y Grŵp, dylai'r aelodau gael cyfleoedd i ymweld â'r safle er mwyn ymgysylltu'n gyffredinol a hefyd er mwyn adolygu eitemau penodol a allai gael eu trafod gan y Grŵp.

Dylid annog aelodau i sylweddoli bod angen iddynt ddeall y materion a allai ddod ger eu bron. Gallai hyn gynnwys rhaglen o hyfforddiant a defnyddio arbenigwyr i helpu'r Grŵp neu ei is-grwpiau i ddeall materion penodol.

Mae pob sefydliad sy'n darparu gwybodaeth i'r Grŵp yn gyfrifol am sicrhau bod yr wybodaeth yn ddealladwy i'r aelodau a'i bod yn diwallu eu hanghenion.

## **Atodlen 1**

### **Cod Ymddygiad ar gyfer Grŵp Rhanddeiliaid y Safle**

Bydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle yn gweithredu'n unol ag ysbryd y Cod Ymddygiad isod, sef

- Parchu pob unigolyn
- Rhannu cyfrifoldeb
- Herio syniadau yn unig, nid pobl
- Bod â meddwl agored
- Holi a chymryd rhan
- Gwrando mewn modd adeiladol
- Mynychu cyfarfodydd yn brydlon
- Y Cadeirydd i gael yr hawl i roi sancsiynau ar Aelodau
- Cymerir cwestiynau gan y cyhoedd ar adegau cyfleus yn ystod y cyfarfodydd
- Dylai caniatáu i aelodau, y cyfryngau neu'r cyhoedd ddod ag offer recordio i unrhyw un o gyfarfodydd y Grŵp fod ar ddisgresiwn y Cadeirydd
- Rhaid parchu cyfrinachedd